# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-05-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 7 Chwefror 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |
| | |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb:

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-04-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnyn nhw, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ar unwaith i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1126 – Rheoliadau Gwartheg Hyn (Gwaredu) (Cymru) 2006

Ms Jackson gyflwynodd yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr Offeryn Statudol wedi'i wneud o dan y Weithdrefn Weithredol.

4.2 Tanlinellwyd bod y llythyren 'y' ar goll o enw fersiwn Cymraeg y Rheoliadau. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

### 4.3 LC1212 – Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006

Ms Jackson gyflwynodd yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Garlam. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.4 LC1213 – Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006**

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiad i’r Pwyllgor. Byddai’r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Garlam. Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.5 LC1214 – Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Cymru) (Diwygio) 2006**

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiad i’r Pwyllgor. Byddai’r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Safonol.

4.6 Nodwyd bod adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn 2004 wedi tanlinellu sawl pwynt i’w cywiro. Allai’r pwyntiau hynny ddim cael eu cywiro ar y pryd drwy ddefnyddio gweithdrefn y Memorandwm Cywiriadau, a hynny am fod y Gorchymyn wedi’i wneud yn barod, o dan y weithdrefn weithredol. Roedd yn drueni ym marn y Pwyllgor nad oedd y cyfle wedi’i gymryd y tro yma i gywiro’r diffygion hynny yn y Gorchymyn a oedd yn cael ei ddiwygio. Gofynnwyd i’r Cadeirydd ysgrifennu llythyr at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dr Brian Gibbons, i dynnu ei sylw at y mater. Camau i’w Cymryd: Y Cadeirydd/y Cynghorwyr Cyfreithiol/y Clerc

4.7 Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.8 LC1215 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2006**

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiad i’r Pwyllgor. Byddai’r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Safonol. Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.9 LC1216 – Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006**

Ms Jackson gyflwynodd yr adroddiad i’r Pwyllgor. Byddai’r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Safonol. Nododd Ms Jackson y dylai cyfeiriadau at 1 Ebrill 2004 mewn perthynas â pharagraff 8(dd) o’r Atodlen gael eu newid i 1 Ebrill 2003. Gyda’r cywiriad yma, cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.10 LC1217 – The Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 Commencement (Wales) (No. 4) Order 2006**

Ms Jackson gyflwynodd yr adroddiad i’r Pwyllgor. Byddai’r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Safonol. Nododd yr Aelodau nad oedd fersiwn Cymraeg o’r Gorchymyn ac, er gwaethaf y cyfyngiadau amser a’r cymhlethdodau, roedden nhw o’r farn y dylai pob deddfwriaeth gael ei chynhyrchu ar ffurf ddwyieithog. Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

## Camau i’w cymryd

4.6 Awgrymwyd y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu llythyr at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dr Brian Gibbons, i dynnu ei sylw at y methiant i weithredu ar y pwyntiau a danlinellwyd gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â Gorchymyn 2004. Camau i’w Cymryd: Y Cadeirydd/y Cynghorwyr Cyfreithiol/y Clerc

## Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Atgoffodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau ei fod wedi paratoi adroddiad ar sut roedd y Pwyllgor yn gweithredu, sef adroddiad a fyddai’n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

5.2 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 14 Chwefror 2006.